

Cyngor Bwrdeistref Sirol



SPG05

Cyfleusterau Hamdden Awyr
Argored A Datblygiad
Tai Newydd
(2022)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig,
Stryd yr Angel,
Pen-y-bont ar Ogwr,
CF31 4WB

CCA 5

**CYFLEUSTERAU HAMDDEN AWYR AGORED A
DATBLYGIAD TAI NEWYDD (2022)**

CCA 5

CYFLEUSTERAU HAMDDEN AWYR AGORED A DATBLYGIAD TAI NEWYDD (2022)

Diben y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) hyn yw ehangu ar bolisi cynllunio presennol y Cyngor ar gyfleusterau hamdden awyr agored sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig. Mae'n amlinellu sut y bydd y Cyngor, pan fo'n briodol, yn ceisio rhwymedigaethau cynllunio i ddarparu neu wella cyfleusterau hamdden awyr agored fel rhan o ddatblygiadau preswyl newydd ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Lluniwyd y ddogfen hon o ganlyniad i gydweithrediad agos rhwng gwahanol swyddogaethau Cyfarwyddiaeth Gymunedau'r Cyngor, a bydd pob un ohonynt yn rhan o'r trafodaethau ar gyfer darparu gofod hamdden awyr agored drwy'r system gynllunio.

Bydd y CCA hwn yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar bob cais cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl gan gynnwys ceisiadau i adnewyddu caniatâd.

Byddai'r Cyngor yn annog unrhyw un sy'n ceisio cyflwyno cais am ddatblygiad preswyl o fewn y Fwrdeistref Sirol i ystyried y CCA hwn ac i gysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cyflwyno cais i drafod y materion a godir yn y ddogfen hon ar sail safle-benodol.

CYNNWYS

Adran	Rhif y Dudalen
1. Cyflwyniad	4
2. Cyd-destun Cefndirol	4
3. Cyd-destun Deddfwriaeth a Pholisi	5
4. Hamdden a Mannau Agored Cyhoeddus – Diffiniadau a Safonau	9
5. Safonau Meincnod Hygyrchedd	11
6. Aseu'r Ddarpariaeth Mannau Chwarae Awyr Agored	12
7. Cyfrifo'r Gofyniad	14
8. Lle Chwarae Awyr Agored – Gofynion Cyffredinol	17
9. Opsiynau Rheoli a Chynnal a Chadw	20
10. Cyfraniadau Ariannol yn Lle Darpariaeth ar y Safle	21
11. Gweinyddu'r Polisi	22
Atodiadau	2 5-3 0

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) hyn yn esbonio'n fanwl ymagwedd y Cyngor at ddarparu chwaraeon awyr agored, manau chwarae i blant, rhandiroedd a manau agored cyhoeddus (gan gynnwys manau gwyrdd naturiol hygyrch) ar gyfer pob datblygiad tai newydd a sut mae Polisi COM11 o Gynllun Datblygu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr (CDLI) yn cael ei weithredu. Mae'r CCA yn annog cysylltiadau rhwng darparu manau agored a geisir o dan Bolisi COM11 a'i gyfraniad at seilwaith gwyrdd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd ei gynnwys yn cael ei ystyried fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio perthnasol.

2. CYD-DESTUN CEFNDIROL

- 2.1 Mae manau hamdden yn hanfodol i'n hiechyd, ein lles, ein hamwynder a gallant gyfrannu at seilwaith gwyrdd ardal. Maent yn darparu lle ar gyfer chwarae, chwaraeon, gweithgarwch corfforol iach a lle i ymlacio yn aml ym mhresenoldeb natur, ac maent yn cyfrannu at ansawdd ein bywyd ac yn elfen allweddol o 'greu lle'. Bydd rhwydweithiau o fannau gwyrdd a manau hamdden hygyrch o ansawdd uchel hefyd yn hyrwyddo cadwraeth natur, bioamrywiaeth ac yn cynnig cyfleoedd pleserus i drigolion ac ymwelwyr gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol. Mae'r gweithgareddau hyn yn bwysig i les plant ac oedolion ac i fywyd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd Pen-y-bont ar Ogwr a Chymru.
- 2.2 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn derbyn nifer uchel o geisiadau bob blwyddyn ar gyfer datblygiadau tai newydd. Mae'r preswylwyr newydd hyn yn creu galw am wella cyfleusterau hamdden presennol a darparu cyfleusterau hamdden newydd. Er mwyn bodloni'r galw hwn, mae Polisi COM11 o'r CDLI yn gofyn am ddarparu lefel a safon foddhaol o chwaraeon awyr agored, manau chwarae i blant, rhandiroedd a manau agored cyhoeddus (gan gynnwys manau gwyrdd naturiol hygyrch) ar gyfer pob datblygiad tai newydd.
- 2.3 Mewn achosion lle gallai datblygiad newydd arfaethedig arwain at golli manau agored presennol neu arfaethedig ar safle gallai Polisi COM7 y CDLI (sydd â'r nod o ddiogelu cyfleusterau cymdeithasol a chymunedol presennol ac arfaethedig) ei gwneud yn ofynnol i greu darpariaeth amgen gyfatebol mewn man arall neu wella'r cyfleuster presennol. Gellir sicrhau hyn drwy gytundeb/rhwymedigaeth gynllunio yn unol â Pholisi SP14 y CDLI.
- 2.4 Mae'r Cyngor yn annog unrhyw un sy'n bwriadu cyflwyno cais am ddatblygiad preswyl yn y Fwrdeistref Sirol i ddarllen y CCA hwn. Er mwyn trafod unrhyw faterion ar sail penodol-i-safle, gallant gysylltu â'r Cyngor cyn gwneud cais cynllunio ar gyfer trafodaethau cyn ymgeisio i'r manylion a ddarperir. Mae'r Cyngor yn annog ac yn croesawu ymholiadau a cheisiadau am gyngor cyn cyflwyno cais. (Ceir rhagor o fanylion am sut i gael gafael ar y gwasanaeth hwn ar wefan y Cyngor).

3. CYD-DESTUN DEDDFWRIAETH A PHOLISI

- 3.1 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddarn allweddol o ddeddfwriaeth sy'n ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ymhellach nawr ac yn y tymor hwy. Mae'r Ddeddf yn rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith sy'n ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i "weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain". Mae'r Ddeddf yn seiliedig ar saith nod llesiant, y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio i'w cyflawni (Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang).
- 3.2 **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016:** Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn rhoi ar waith y ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgyssylltiedig. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) adrodd ar adnoddau naturiol y dywysogaeth a manylu ar eu gallu i ymateb i bwysau ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Felly, cyhoeddodd CNC yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) yn 2016. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn darparu cyd-destun ar gyfer darparu seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol. Gall ei ddarpariaeth wneud cyfraniad sylweddol at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac yn arbennig i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau o ran yr amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt a graddau, cyflwr a chysylltedd ecosystemau a'u gallu i addasu. Mae hyn yn golygu bod datblygu seilwaith gwyrdd yn ffordd bwysig i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd Adran 6.
- 3.3 **Polisi Cynllunio Cymru (PCC) – Argraffiad 11 (Chwefror 2021):** Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio ddarparu fframwaith ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden o ansawdd da sydd wedi'u lleoli'n dda, a datblygu polisiâu clir ar gyfer darparu, diogelu a gwella cyfleusterau chwaraeon a hamdden. Dylai'r polisiâu hyn bennu safonau darpariaeth, fel y gellir nodi diffygion lleol a'u bodloni drwy'r broses gynllunio a nodi polisiâu i osgoi neu ddatrys gwrthdaro rhwng gwahanol weithgareddau.
- 3.4 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid diogelu mannau gwyrdd agored ffurfiol ac anffurfiol rhag cael eu datblygu, yn enwedig mewn ardaloedd trefol lle maent yn cyflawni sawl diben. Yn ogystal â gwella ansawdd bywyd, maent yn cyfrannu at fioamrywiaeth, gwarchod yr amgylchedd hanesyddol, natur a thirwedd, gwell ansawdd aer, diogelu dŵr daear ac fel mannau heddychlon. Mae gan fannau agored o'r fath rôl hefyd o ran diogelu'r hinsawdd ac o ran galluogi addasu ardaloedd trefol i effeithiau newid hinsawdd, er enghraifft drwy gyfrannu at reoli llifogydd a helpu i leihau effeithiau ynnysoedd gwres trefol. Mae llawer o barciau a gerddi yn hanesyddol arwyddocaol ac wedi'u rhestru yng Nghofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol Cymru.

- 3.5 Dylai pob cae chwarae, boed yn eiddo i gyrff cyhoeddus, preifat neu wirfoddol, gael ei ddiogelu rhag cael ei ddatblygu ac eithrio pan:
- y ffordd orau o gadw a gwella cyfleusterau yw drwy ailddatblygu rhan fach o'r safle;
 - mae darpariaeth amgen o fudd cymunedol cyfatebol ar gael yn lleol, gan osgoi colli unrhyw ddarpariaeth dros dro; neu
 - mae gormod o ddarpariaeth o'r fath yn yr ardal.
- 3.6 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai awdurdodau lleol ddiogelu caeau chwarae a manau agored sydd â gwerth amwynder neu hamdden sylweddol i gymunedau lleol rhag cael eu datblygu. Dylent nodi'r ffyrdd y gellir defnyddio tir a chyrrff dŵr a ddatblygwyd neu a oedd wedi'u defnyddio o'r blaen at ddibenion chwaraeon a hamdden, yn enwedig mewn perthynas ag adfywio trefol.
- 3.7 Dylai awdurdodau cynllunio hefyd annog defnydd lluosog o fannau agored a chyfleusterau, pan fo'n briodol, i gynyddu eu defnydd effeithiol. Mae 'Beyond the Six Acre Standard', a gynhyrchwyd gan Fields in Trust (FIT), yn ffynhonnell ddefnyddiol o gyngor i awdurdodau cynllunio ar ddarparu manau agored a manau chwarae a chwaraeon awyr agored drwy'r system gynllunio.
- 3.8 Dylai awdurdodau cynllunio ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio tir a llwybrau segur fel parciau, parciau llinellol neu llwybrau gwyrdd mewn ardaloedd trefol ac annog darparu llwybrau beicio a llwybrau troed diogel a deniadol. Lle cynigir defnydd hamdden o reilffyrdd neu fannau segur wrth ymyl camlesi neu afonydd, dylai awdurdodau cynllunio sicrhau nad oes unrhyw golled i ddefnyddwyr cyfagos, bywyd gwyllt nag amddiffynfeydd rhag llifogydd.
- 3.9** Ategir Polisi Cynllunio Cymru gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) gan gynnwys **TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Manau Agored (2009)**: Mae TAN 16 yn darparu canllawiau a luniwyd i ategu'r polisi a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru. Mae'n rhoi cyngor ychwanegol ar rôl y system gynllunio o ran darparu ar gyfer chwaraeon, hamdden a manau agored anffurfiol. Mae'n cynnig cyfarwyddiadau ar gynllunio ar gyfer defnyddiau chwaraeon a hamdden yn ogystal â lefelau priodol o ddarpariaeth.
- 3.10 Nid oes unrhyw safonau cenedlaethol statudol ar gyfer darparu chwaraeon, hamdden a manau agored yng Nghymru. Mae paragraff 2.9 i 2.11 o TAN 16 yn nodi bod 'Safonau Meincnod' Fields in Trust (FIT) ar gyfer chwaraeon a chwarae awyr agored yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol. Mae'r safon yn argymhell isafswm o 2.4 hectar o le awyr agored fesul 1,000 o'r boblogaeth. Mae'r safon wedi'i chategoreiddio'n dri math o ddarpariaeth; chwaraeon awyr agored ffurfiol, lle chwarae anffurfiol a lle chwarae dynodedig â chyfarpar. Ceir diffiniadau pellach o'r tri chategori hyn yn ddiweddarach.
- 3.11 Mae paragraff 2.18 o TAN 16 yn nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi datblygu pecyn cymorth i helpu i sicrhau bod gan bawb yng Nghymru fynediad i fannau gwyrdd naturiol. Mae'r pecyn cymorth yn argymhell y dylid darparu ar gyfer o leiaf 2ha o fannau gwyrdd naturiol hygyrch fesul 1,000 o'r boblogaeth, na ddylai unrhyw un fyw mwy na 300 metr o'u man gwyrdd naturiol agosaf. Er nad yw'r CCA hwn yn mynd i'r afael yn ffurfiol â darparu manau gwyrdd naturiol hygyrch, bydd yn ceisio annog manau

agored newydd sydd â'r potensial i gyfrannu at y ddwy safon drwy gyflwyno manau amlswyddogaethol.

- 3.12 Mae TAN 16 yn nodi y dylai awdurdodau lleol gynnal Asesiad o Fannau Agored sy'n cwmpasu pob math o ddarpariaeth manau agored er mwyn darparu sail ar gyfer sefydlu gweledigaeth strategol. Cydnabyddir bod y Canllawiau Cynllunio Atodol yn canolbwyntio mwy ar ei gwmpas nag Asesiad o Fannau Agored. Ystyrir mai dyma'r ffordd fwyaf priodol ymlaen ac mae'n unol â pharagraff 2.29 sy'n nodi na ddylai awdurdodau lleol oedi'r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu lleol lle nad oes asesiad ar gael. Yn hytrach, dylent ddefnyddio gwybodaeth sydd wrth law, ac y mae ganddynt hyder ynddi.
- 3.13 Mae paragraff 4.15 o TAN 16 yn nodi y gellir defnyddio amodau a rhwymedigaethau cynllunio i ddarparu manau agored, chwaraeon a chyfleusterau hamdden er mwyn diogelu a gwella'r darpariaethau presennol a darparu ar gyfer eu rheoli.
- 3.14 **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) - Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Chwefror 2021):** Mae'r FfDC yn amlinellu sut, wrth i boblogaeth Cymru ddod yn fwyfwy trefol, y bydd y cyfle i sicrhau'r manteision llesiant gorau posibl o seilwaith gwyrdd ar ei fwyaf yn yr ardaloedd hyn ac o'u hamgylch. Gall defnydd arloesol o atebion sy'n seiliedig ar natur ac integreiddio seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol ac o'u hamgylch helpu i adfer nodweddion a phrosesau naturiol i ddinasoedd a thirweddau.
- 3.15 Mae'r FfDC yn pwysleisio bod darparu manau gwyrdd a choridorau o ansawdd uchel sy'n hygyrch yn lleol yn helpu i gynnal a gwella gweithrediad strategol ein hadnoddau naturiol a'n rhwydweithiau ecolegol ac yn mynd i'r afael â lles corfforol a meddyliol. Dangoswyd pwysigrwydd gwirioneddol manau gwyrdd trefol pan oedd pobl wedi'u cyfyngu i wneud ymarfer corff mewn manau gwyrdd lleol iawn yn ystod cyfyngiadau symud Covid-19.
- 3.16 Mae'r FfDC yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol gydweithio ac, ynghyd â Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid, darparu seilwaith gwyrdd a safleoedd diogelu o fewn a thu hwnt i'w ffiniau gweinyddol. Dylid nodi ardaloedd a ddiogelir ac unrhyw ddyraniadau penodol drwy'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd a'u nodi yn y cynllun datblygu perthnasol.
- 3.17 **Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr 2018 – 2023:** Mae'r Cynllun Llesiant yn amlinellu sut y bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda'i gilydd dros y pum mlynedd nesaf i gyflawni'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru fel y cyfeirir atynt yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r Cynllun wedi'i lunio o amgylch yr egwyddor datblygu cynaliadwy ac mae'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau a helpu i'w hatal rhag gwaethygu neu ddiogwydd yn y dyfodol. Felly, mae pedwar amcan llesiant wedi'u datblygu, sef:
1. Dechrau gorau mewn bywyd
 2. Cefnogi cymunedau yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynus
 3. Lleihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd

4. Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach

- 3.18 Mae'r cynllun hwn yn cydnabod pwysigrwydd gwella mannau gwyrdd a'r cyfraniad y gall yr asedau hyn ei wneud i helpu i wella iechyd a lles pobl.
- 3.19 **Cynllun Datblygu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr (20 06-2021):** Mae CDLI Pen-y-bont ar Ogwr yn nodi polisiau cynllunio defnydd tir y Cyngor hyd at 2021. Mae'r polisiau perthnasol yn cynnwys:
- 3.20 **Polisi COM11** – Darparu Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored: mae'n adlewyrchu'r canllawiau a nodir yn TAN 16 a 'Safonau Meincnod' Fields in Trust (FIT). Mae'n ofynnol i ddatblygiadau preswyl newydd gadw at yr isafswm o 2.4 ha o wahanol fathau o fannau chwarae awyr agored fesul 1,000 o'r boblogaeth. Mae Polisiau eraill sy'n arbennig o berthnasol yn cynnwys:
- Polisi Strategol SP13 – Cyfleusterau Cymdeithasol a Chymunedol
 - Polisi COM7- Diogelu Cyfleusterau Cymdeithasol a Chymunedol
 - Polisi ENV5 - Seilwaith Gwyrdd
 - Polisi COM12 - Darparu Caeau Chwarae
 - Polisi COM14 - Darparu Rhandiroedd a Rhwydweithiau Bwyd Cymunedol
 - Polisi ENV6 - Cadwraeth Natur

4. HAMDDEN CYHOEDDUS A MANNAU AGORED – DIFFINIADAU A SAFONAU

- 4.1 Mae safon ofynnol fabwysiedig y Cyngor o 2.4 hectar fesul 1,000 o'r boblogaeth ar gyfer mannau agored, chwaraeon a hamdden yn deillio o 'Safonau Meincnod' gofynnol FIT ar gyfer chwaraeon a chwarae awyr agored. Mae hyn yn adeiladu ar y 'Safon Chwe Erw' a sefydlwyd yn y 1930au. Dyma'r unig safon genedlaethol a ddarperir ar gyfer chwaraeon awyr agored a mannau chwarae ac felly mae'n dal i gael ei hargymell fel arfer gorau.
- 4.2 Mae'r safon FIT yn cynrychioli lefel ofynnol o ddarpariaeth a dylid ei cheisio felly ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae chwaraeon awyr agored a mannau chwarae yn cyfeirio at dir ar gyfer chwaraeon, hamdden a chwarae plant:
- 4.3 At ddibenion y CDLI a'r CCA hwn, diffinnir cyfleusterau hamdden awyr agored fel a ganlyn:-
- 4.4 **Chwaraeon Awyr Agored – 1.6 Hectar**
- 4.5 Diffinnir Chwaraeon Awyr Agored fel pob ardal sydd wedi'i marcio a'i gosod allan at ddibenion hamdden egnïol ffurfiol. Mae'n cynnwys ardaloedd fel lleiniau, meysydd gwyrdd, cyrtiau, traciau athletau a mannau hyfforddi. Mae hefyd yn cynnwys cyfleusterau sy'n atodol i ddibenion chwaraeon awyr agored fel ystafelloedd newid, toiledau, pafiliynau a thai clwb. Cynhwysir hefyd dir a chyfleusterau sy'n gysylltiedig ag ysgolion os yw'r rhain ar gael i'r gymuned ehangach.
- 4.6 **Man Chwarae i Blant – 0.8 Hectar** (yn cynnwys Mannau Chwarae Anffurfiol – 0.55 Hectar a Lle Chwarae i Blant â Chyfarpar – 0.25 Hectar)
- 4.7 Mae Mannau Chwarae i Blant yn ardaloedd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi'u dynodi i ddarparu cyfleoedd penodol ar gyfer chwarae yn yr awyr agored. Gall y rhain gynnwys mannau sy'n cynnwys offer hamdden a mannau glaswelltog i blant bach neu blant hŷn fwynhau gweithgareddau hamdden. At ddibenion Polisi COM11 a'r CDLI, defnyddir safon Fields in Trust o 0.8 hectar fesul 1000 o'r boblogaeth fel safon feincnod o ddarpariaeth.
- 4.8 **Rhandiroedd – 0.2 Hectar**
- 4.9 Cydnabyddir bod rhandiroedd yn cynnig manteision amlswyddogaethol i gymunedau o ran cynaliadwyedd, hamdden a bioamrywiaeth. Maent yn ardaloedd o fannau agored o fewn ac yn hygyrch i'r amgylchedd trefol a all ddarparu cyfleoedd ymarfer corff cymedrol, ymlacio a chynhyrchu ffrwythau a llysiau ffres. Maent hefyd yn darparu manteision cymunedol, iechyd a chymdeithasol, gan annog rhyngweithio rhwng defnyddwyr o bob oed, rhoi'r cyfle i addysgu a dysgu, a gwella bioamrywiaeth leol.
- 4.10 **Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch (gan gynnwys mannau agored cyhoeddus)**
- 4.11 Diffinnir y rhain fel ardaloedd naturiol yn bennaf sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd ardaloedd trefol, a lle mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys nodweddion fel coetir, llwyni,

rhostir a glaswelltir garw. Maent hefyd yn cynnwys gwlyptiroedd neu ardaloedd arfordirol a nodweddir gan ddŵr agored, cyrs, twyni tywod neu lannau creigiog.

4.12 Mae CNC yn argymhell y dylai'r ddarpariaeth gynnwys o leiaf 2 hectar fesul 1000 o'r boblogaeth yn ôl system o haenau y mae safleoedd o wahanol feintiau yn ffitio iddynt:

- Ni ddylai unrhyw berson fyw mwy na 300 metr o'i ardal agosaf o fannau gwyrdd naturiol;
- Dylai fod o leiaf un safle 20 hectar hygyrch o fewn 2km o gartref;
- Dylai fod un safle 100 hectar hygyrch o fewn 5km;
- Dylai fod un safle 500 hectar hygyrch o fewn 10km.

4.13 Er y disgwylir i awdurdodau lleol anelu at fodloni'r ddarpariaeth a nodir yn y model uchod, mae'r pecyn cymorth yn cydnabod efallai na fydd hyn yn briodol ym mhob cyddestun trefol. Felly, dylid defnyddio'r model i lywio polisi ar y cyd â dealltwriaeth o anghenion y gymuned leol a gwerth mannau gwyrdd naturiol hygyrch iddo. Mae'r safon yn cael ei hyrwyddo fel targed uchelgeisiol ar gyfer pennu blaenoriaethau lleol a mesur cynnydd. Yn hyn o beth, o ystyried y rhwydwaith helaeth o fannau gwyrdd naturiol hygyrch ledled y Fwrdeistref Sirol, mae'r Cyngor wedi dewis mabwysiadu'r dull na ddylai unrhyw un fyw mwy na 300 metr o'i ardal agosaf o fannau gwyrdd naturiol.

4.14 **Gofod Amwynder**

4.15 At ddibenion y CCA mae 'gofod amwynder' yn ardaloedd o fannau gwyrdd, a'u prif ddiben yw meddalu'r amgylchedd sy'n gysylltiedig â datblygiadau preswyl gan greu amgylchedd mwy deniadol i breswylwyr a gwella iechyd a lles. Fodd bynnag, gyda dyluniad greddf, gall gofod amwynder fod â swyddogaeth ddeuol o ran darparu cyfleoedd ar gyfer gwell defnydd hamdden.

5. SAFONAU MEINCNOD HYGyrCHEDD

- 5.1 Bydd safonau meincnod hygyrchedd yn cael eu cymhwyso i ddarpariaeth chwaraeon a chwarae awyr agored. Unwaith eto, mae'r safonau hyn yn deillio o ganllawiau FIT ac fe'u pennir yn unol â hynny ar gyfer pob math o ddarpariaeth. Dylid defnyddio'r rhain fel rhai dangosol yn unig, gan nad oes asesiad o rwystrau ffisegol wedi'i gynnal. Serch hynny, maent yn rhoi syniad da o lefel y ddarpariaeth o fewn pellter cerdded i wahanol fathau o gyfleusterau:

Math	Safon hygyrchedd (Pellter mewn metrau)
Chwaraeon awyr agored	1,200m
Man chwarae anffurfiol	400m
Man chwarae dynodedig â chyfarpar	100m o LAP
	400m o LEAP
	1000m o NEAP
Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch	300m

6. ASESU'R DDARPARIAETH O FANNAU CHWARAE YN YR AWYR AGORED

- 6.1 Mae'r Cyngor wedi cynnal archwiliad o'r ddarpariaeth Chwaraeon Awyr Agored a Mannau Chwarae i Blant (2020) yn y Fwrdeistref Sirol er mwyn cymharu lefel y ddarpariaeth yn fras â'r safon feincnod a gymeradwywyd gan Fields in Trust.
- 6.2 Mae'r dadansoddiad Is-ardal a gynhwysir yn y ddogfen yn seiliedig ar boblogaeth Cyfrifiad 2011 oherwydd nad oes data poblogaeth mwy diweddar ar gael ar lefel is-Awdurdod Lleol. Felly, dylid ystyried y canfyddiadau'n is nag ydynt go iawn a byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae cryn amrywiaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol o ran y gwahanol fathau o ddarpariaeth sydd ar gael a'r gwargedau a diffygion cysylltiedig, sef:-
- 6.3 *Lefel Is-ardal*
- O ran Lleiniau Chwarae, mae diffygion yn y ddarpariaeth ym mhob Is-ardal ar draws y Fwrdeistref Sirol ar wahân i Bencoed.
 - O ran Ardaloedd Chwarae â Chyfarpar / Dynodedig, mae diffygion yn y ddarpariaeth ym mhob Is-ardal.
 - Yn yr un modd, mae diffygion ar draws pob Is-ardal mewn perthynas â Darpariaeth Chwaraeon Awyr Agored Arall
 - Mae darlun llawer gwell o ran Mannau Gwyrdd ar gyfer Amwynder, gyda phob Is-Ardal yn dangos gwaged "cyffredinol".
- 6.4 Ni ddylid cymryd yn ganiataol y gellir defnyddio gwaged o un math o ddarpariaeth i wrthbwysio diffyg math arall o ddarpariaeth o fewn Is-ardal. Yn yr un modd, mae'r safonau a ddefnyddir o fewn yr archwiliad yn safonau meincnod ac ni ddylid eu dehongli fel lefelau uchaf y ddarpariaeth. Felly, nid yw nodi gwaged cyffredinol o ddarpariaeth o fewn Is-ardal yn dangos bod angen lleihau'r ddarpariaeth bresennol drwy ail-ddatblygu neu fel arall. Mae mynediad at lu o gyfleusterau hamdden yn hanfodol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol o fewn a rhwng gwahanol gymunedau yn y Fwrdeistref Sirol, ac yn rhoi cyfle i bobl fyw bywydau iach, diogel a chytbwys.
- 6.5 Cyfeirir at ganfyddiadau'r asesiad diweddaraf o gyflwr wrth asesu effaith datblygiad preswyl arfaethedig ar fannau agored cyhoeddus ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Os oes gan ward ddigon o ddarpariaeth i fodloni safonau FIT, efallai y bydd yn ofynnol o hyd i ddatblygwyr gyfrannu at fannau chwarae awyr agored os gellir dangos nad yw ansawdd a chyflwr yr ardal chwarae yn bodloni'r safonau ansawdd presennol a fyddai'n cael eu gwaethygu gan gynnydd yn y boblogaeth. Fodd bynnag, bydd cyfraniadau datblygwyr a geisir yn ymwneud â graddfa ac effaith y datblygiad arfaethedig ac ni fydd disgwyl iddynt wrthbwysio'r diffygion presennol yn y ddarpariaeth.
- 6.6 Rhoddir ystyriaeth hefyd i hygyrchedd y cyfleusterau presennol yn ardal y datblygiad preswyl arfaethedig. Ystyriaethau pwysig wrth ddarparu cyfleusterau digonol a defnyddiadwy i blant yw'r amser cerdded dan sylw a rhwystrau ffisegol megis priffyrdd. Nid yw plant yn cyfyngu eu harferion chwarae i ffiniau wardiau, felly wrth asesu effaith

datblygiad preswyl arfaethedig, gallai nifer o wardiau yng nghyffiniau cynllun arfaethedig fod yn rhan o'r asesiad o'r ddarpariaeth bresennol.

- 6.7 Mae asesu mannau chwarae yn yr awyr agored yn ymarfer parhaus i'r Cyngor. Yn hyn o beth, gellid ystyried gwybodaeth fwy diweddar sy'n ymwneud â defnydd ac ansawdd y ddarpariaeth bresennol wrth benderfynu ar ofynion mannau chwarae awyr agored pan fydd ar gael. Cynghorir yn gryf y trafodaethau gyda'r Adran Gynllunio yn gynnar yn y broses gynllunio i dynnu sylw at faterion darpariaeth chwarae sy'n ymwneud â lleoliad datblygiad preswyl arfaethedig.

7. CYFRIFO'R GOFYNIAD

- 7.1 Dylid ceisio darparu lefel a safon foddhaol o fannau chwarae awyr agored ar bob datblygiad tai newydd oherwydd bydd poblogaeth gynyddol yn rhoi pwysau ychwanegol ar gyfleusterau sy'n bodoli eisoes. Felly, ceisir cyfraniad ar gyfer pob datblygiad preswyl newydd.
- 7.2 Bydd cyfanswm y gofyniad chwarae yn yr awyr agored ar gyfer datblygiad yn cael ei gyfrifo drwy luosi nifer yr anheddau â chyfradd defnydd penodol sy'n berthnasol i bob annedd. Nifer yr ystafelloedd gwely sydd gan annedd fydd yn pennu'r gyfradd defnydd fwyaf priodol. Y lefelau defnydd cyfartalog a ddefnyddir gan y Cyngor at ddibenion y CCA yw:

Math o Aelwyd	Defnydd Cyfartalog
Tŷ 1 ystafell wely	1.5 person
Tŷ 2 ystafell wely	2 berson
Tŷ 3 ystafell wely	2.5 person
Tŷ 4 ystafell wely	3 pherson
Tŷ 5+ ystafell wely	4 person

- 7.3 Gellir rhannu 'Safon Meincnod' FIT o 2.4 ha fesul 1,000 o'r boblogaeth i lawr i ofyniad metr sgwâr fesul person fel a ganlyn:

Safon FIT	
Man chwarae dynodedig â chyfarpar	0.25 ha fesul 1,000 o'r boblogaeth = 2.5m ² y pen
Man chwarae anffurfiol	0.55 ha fesul 1,000 o'r boblogaeth = 5.5m ² y pen
Chwaraeon awyr agored (ffurfiol)	1.6 ha fesul 1,000 o'r boblogaeth = 16m ² y pen

- 7.4 Yna gellir asesu'r boblogaeth ddatblygu amcangyfrifedig yn erbyn y safon FIT i gyfrifo'r swm gofynnol o le chwarae awyr agored sy'n berthnasol i'r datblygiad.

Enghraifft wedi'i chyfrifo

Byddai datblygiad o 50 o dai tair ystafell wely yn rhoi poblogaeth ddatblygu o 50 x 2.5 (yn seiliedig ar gyfraddau defnydd cyfartalog) = 125. Felly, y gofynion o ran manau chwarae y tu allan fyddai:

Man chwarae dynodedig $125 \times 2.5\text{m}^2 = 312.5 \text{ m}^2$

Gofod chwarae anffurfiol $125 \times 5.5\text{m}^2 = 687.5 \text{ m}^2$

Chwaraeon awyr agored (ffurfiol) $125 \times 16\text{m}^2 = 2000 \text{ m}^2$

Cyfanswm y ddarpariaeth = 3000 m²

- 7.5 Felly, y canllaw i lefel y ddarpariaeth sy'n ofynnol yn dibynnu ar y boblogaeth ddatblygu amcangyfrifedig yw:

Poblogaeth Datblygu	Lle chwarae â chyfarpar (m2)	Man chwarae anffurfiol (m2)	Chwaraeon awyr agored (m2)	Cyfanswm y ddarpariaeth ddatblygu (m2)
50	125	275	800	1200
100	250	550	1600	2400
200	500	1100	3200	4800
500	1250	2750	8000	12000

- 7.6 Bydd y math o le chwarae â chyfarpar a ystyrir yn dderbyniol gan y Cyngor yn cael ei farnu fesul safle. Fodd bynnag, nodir mai'r math o chwarae â chyfarpar sy'n debygol o fod yn ofynnol yn seiliedig ar faint y boblogaeth ddatblygu yw:

Poblogaeth datblygu	Lle chwarae â chyfarpar (m2)	Math o chwarae â chyfarpar
100	250	Ardal Leol ar gyfer Chwarae
150	375	Ardal Chwarae â Chyfarpar Lleol
250	625	Ardal Leol ar gyfer Chwarae ac Ardal Chwarae â Chyfarpar Lleol
350	875	Ardal Chwarae Yn y Gymdogaeth

- 7.7 Rhaid i'r ddarpariaeth o fannau chwarae yn yr awyr agored ar ddatblygiadau tai newydd adlewyrchu gofynion meddianwyr y dyfodol a nodweddion penodol y safle. Penderfynir ar union ffurf a math y man agored o ran natur a maint y datblygiad a chyfleusterau sydd ar gael yn yr ardal leol.
- 7.8 Mewn rhai amgylchiadau, gallai amrywiad o'r ddarpariaeth arferol o fannau agored hamdden fod yn fwy priodol. Bydd y Cyngor yn mabwysiadu dull hyblyg o ymdrin â lefel a math y ddarpariaeth manau agored a geisir ar ddatblygiad er mwyn adlewyrchu nodweddion poblogaeth tebygol y datblygiad. Ar gyfer safleoedd o 10 annedd neu lai, efallai na fydd yn ymarferol darparu'r ddarpariaeth ar y safle. Ar y sail hon, gellir ystyried cyfraniad ariannol yn lle darpariaeth ar y safle. Caiff hyn ei wario naill ai o'r ardaloedd presennol o fannau agored cyhoeddus neu lwybrau Teithio Llesol o'r safle datblygu i'r ardal agosaf o fannau agored cyhoeddus.
- 7.9 Gall datblygiadau preswyl mawr sylweddol fod yn destun briffiau datblygu a fydd yn nodi swm, math a lleoliad dewisol manau agored.
- 7.10 Ystyrir bod y gofyniad am hamdden awyr agored a manau agored cyhoeddus yn rhan hanfodol o unrhyw gynllun tai ac yn gyffredinol dylid ei ddarparu fel rhan o ddatblygiad tai newydd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod y gall fod amgylchiadau lle mae rhwymedigaethau cynllunio eraill e.e. gwelliannau priffyrdd neu ddarpariaeth addysg

yn cael blaenoriaeth dros hamdden awyr agored a mannau agored cyhoeddus. Felly, efallai y bydd angen pennu blaenoriaeth gymharol gwahanol fathau o ddarpariaeth yng nghyd-destun yr amgylchiadau unigol a'r amcanion cynllunio o'u cymharu â phob cynnig datblygu.

7.11 Y Dull Seilwaith Gwyrdd

- 7.12 Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wrthi'n mynd ar drywydd ei agenda i fabwysiadu dull seilwaith gwyrdd o ddatblygu. Dylid hefyd archwilio cyfleoedd i greu mannau amlswyddogaethol a chysylltiadau â'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd ehangach yn unol â gofynion SPG19 'Bioamrywiaeth a Datblygu'. Mae gan fannau agored sy'n cyfrannu at safonau FIT botensial hefyd i gyfrannu at fathau eraill o fannau agored, megis Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch yn ogystal â bod o fudd i'r amgylchedd ac iechyd a lles yn fwy cyffredinol. Wrth gynllunio cynlluniau datblygu, dylai datblygwyr geisio cyfrannu at wella hygyrchedd a natur naturiol mannau agored a chwilio am gyfleoedd i greu neu gyfrannu at goridorau mannau gwyrdd.

8. MAN CHWARAE AWYR AGORED – GOFYNION CYFFREDINOL

- 8.1 Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai'r ddarpariaeth barhau i gael ei gwneud ar y safle fel rhan annatod o'r datblygiad; dylai fod yn gysylltiedig iawn â'r eiddo preswyl arfaethedig ac o fath priodol i ddiwallu anghenion y datblygiad.
- 8.2 Ni fydd y Cyngor bellach yn derbyn safleoedd poced, stribedi bach o dir neu safleoedd cornel i'w mabwysiadu gan mai anaml iawn y bydd gan y rhain fudd sylweddol i'r cyhoedd neu'n rhan o gynllun strategol ehangach. Mae'n hanfodol yn ystod cam cynllunio y datblygiad na chaiff y safleoedd hyn eu cynnwys yn y cynllun. Fel arall, gallai dyluniad a chynllun gysylltu cyfres o fannau sy'n cysylltu o fewn darpariaeth gyfagos oddi ar y safle neu â hi, a fyddai'n cael eu ystyried yn ddatblygiad cadarnhaol ac y gellid cytuno arni i'w mabwysiadu. Mae tir sydd â statws gwarchoddedig, er enghraifft Henebion Cofrestredig, coetiroedd â Gorchymyn Cadw Coed neu Safleoedd Cawraeth Natur o Bwys hefyd yn cael eu hystyried yn anaddas i'w dynodi'n fan chwarae ffurfiol â chyfarpar o fewn datblygiad pe bai defnydd o'r fath yn cael niwed amlwg ar ei brif swyddogaeth. Yn ogystal â hyn, ni ellir ystyried ardaloedd sydd â swyddogaeth ar wahân, e.e. cronbyllau, ardaloedd arafu llifogydd neu nodweddion eraill wedi'u peiriannu, ar gyfer darpariaeth chwarae ffurfiol oni ellir gwarantu ei defnydd fel y cyfryw yn rhesymol drwy gydol y flwyddyn.
- 8.3 Mae'r dull mwyaf priodol o ddarparu pob math o le chwarae awyr agored wedi'i nodi isod gydag egwyddorion dylunio ychwanegol wedi'u nodi yn Atodiad 1.
- 8.4 **Man Chwarae i Blant**
